Crynodeb o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd AaGIC a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021

Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus presennol, nid oeddem yn gallu cynnal ein cyfarfod ar y 9 Mehefin o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn gyhoeddus. O ganlyniad, rydym wedi cynhyrchu'r crynodeb hwn o'r cyfarfod a byddwn yn cyhoeddi cofnodion heb eu cadarnhau'r cyfarfod o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod. Mae'r papurau a drafodwyd i'w gweld yn adran gorfforaethol gwefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Er ei fod yn cael ei gynnal drwy lwyfan fideogynadledda, cynhaliwyd y cyfarfod fel arfer, yn unol â'r broses briodol, gyda'r nifer angenrheidiol o aelodau'r pwyllgor yn bresennol er mwyn i benderfyniadau gael eu gwneud a'u cytuno'n ffurfiol.

Croeso a Chofnodion.

Croesawodd y Cadeirydd, Gill Lewis, bawb i'r cyfarfod yn ystod y cyfnod heriol hwn. Yn benodol, y Prif Weithredwr a oedd yn bresennol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd AaGIC, a gynhaliwyd ar y 6 Mai 2021.

1. **Cyfrifon Blynyddol 2020/21**

2. Derbyniodd y Pwyllgor y Cyfrifon Blynyddol Terfynol drafft ar gyfer 2020/21.

   Cadarnhawyd yr aseswyd bod AaGIC wedi cyflawni ei rwymedigaeth gyfreithiol yn 2020/21 i gyrraedd targedau ar ei derfynau refeniw ac adnoddau cyfalaf. Nododd y Pwyllgor y Cyfrifon Blynyddol Terfynol.

   Diolchodd y Pwyllgor hefyd i staff AaGIC ac Archwilio Cymru am eu gwaith yn cwblhau Cyfrifon Blynyddol eleni.

3. **Adroddiad Atebolrwydd Drafft**

   Cafodd yr Adroddiad Atebolrwydd drafft sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol(AGS), yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ac Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru ei dderbyn a'i ystyried gan y Pwyllgor. Awgrymodd y Pwyllgor ddiwygiadau pellach i'r dogfennau drafft.

   Argymhellodd y Pwyllgor, yn amodol ar ymgorffori gwelliannau awgrymedig y Pwyllgor yn yr Adroddiad Atebolrwydd drafft, y dylid argymell y ddogfen ddiwygiedig i'w chymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ar 10 Mehefin.

4. **Adroddiad Perfformiad**

Cafodd yr Adroddiad Perfformiad drafft ei dderbyn a'i ystyried gan y Pwyllgor. Awgrymodd y Pwyllgor welliannau pellach i'r ddogfen ddrafft. Nododd yr adroddiad fod AaGIC dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cefnogi ymateb gweithlu'r GIG i'r pandemig tra'n gwneud cynnydd da o ran ei amcanion strategol.

Argymhellodd y Pwyllgor, yn amodol ar ymgorffori gwelliannau awgrymedig y Pwyllgor yn yr Adroddiad Perfformiad drafft, y dylid argymell cymeradwyo'r ddogfen ddiwygiedig yng nghyfarfod y Bwrdd ar y 10 Mehefin.

5. Archwiliad Mewnol – Adroddiad Blynyddol Terfynol a Phennaeth Barn Archwilio Mewnol 2020/21

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol Terfynol a'r Pennaeth Barn Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21. Asesodd y Pennaeth Barn Mewnol y gallai'r Bwrdd gymryd sicrwydd rhesymol yn system rheolaeth fewnol AaGIC.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd yr Archwiliad Mewnol hefyd.

Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd a'r Adroddiad Blynyddol Terfynol a'r Pennaeth Barn Mewnol.

6. Archwilio Cymru

Derbyniodd a nododd Adroddiad Datganiadau Ariannol Archwilio Cymru (ISA 260) a Llythyr Cynrychiolaeth.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ystyried cymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol yng nghyfarfod y Bwrdd ar 10 Mehefin.